

Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

Cynllun Iaith Gymraeg

a baratowyd dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Welsh Language Scheme

prepared under the Welsh Language Act 1993

Mae Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned
Llandyfaelog wedi derbyn cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith
Gymraeg o dan adran 14(1) y Ddeddf, ar 19eg Ionawr 2001.

The Welsh Language Scheme of Llandyfaelog
Community Council has received the approval of the Welsh
Language Board under section 14(1) of the Act, on 19th January 2001.



CYNLLUN IAITH AR GYFER CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
PARATOWYD YN UNOL A DEDDF YR IAITH 1993

Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar **y sail eu bod yn gyfartal**. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Cyngor felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin ag ef.

Nod y Cyngor yw:

- galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda'r cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- annog a chyflyru mudiadau cyhoeddus eraill sydd yn ymwneud â'r Cyngor i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- cefnogi ac annog defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau a busnesau sydd yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd o fewn ardal a gwasanaethwyd gan y Cyngor.

A LANGUAGE SCHEME FOR LLANDYFAELOG COMMUNITY COUNCIL
PREPARED UNDER THE WELSH LANGUAGE ACT 1993

Llandyfaelog Community Council has adopted the principle that in the conduct of public business in Wales it will treat Welsh and English on a **basis of equality**. This scheme sets out how the Council will implement that principle in the provision of services to the public in Wales.

The Council recognises that members of the public can express their views and needs better in their preferred language, that enabling them to use their preferred language is a matter of good practice rather than a concession and that the denial of that right could place members of the public at a real disadvantage. The Council will therefore offer the public the right to choose which language to use in dealings with the Council.

The Council aims:

- to enable everyone who receives or uses the Council's services or contributes to the democratic process to do so through the medium of Welsh or English, according to personal choice.
- to encourage the use of the Welsh language in the community.
- to encourage all other public bodies which have dealings with the Council to use the Welsh language in the life and work of the community.
- to support and encourage the use of Welsh by organisations and businesses which provide services for the public in the area served by the Council.

CYNNWYS

RHAGARWEINIAD I GYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

- 1. Cynllunio a darparu gwasanaeth**
- 2. Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**
- 3. Wyneb cyhoeddus y Cyngor**
- 4. Gweithredu a monitro'r cynllun**

CONTENTS

INTRODUCTION TO LLANDYFAELOG COMMUNITY COUNCIL

WELSH LANGUAGE SCHEME

- 1. Service planning and delivery**
- 2. Dealing with the Welsh-speaking public**
- 3. The Council's public face**
- 4. Implementing and monitoring the scheme**

CYFLWYNIAD I GYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG

Cyngor y Gymuned yw gwreiddiau pwysig strwythur llywodraeth leol yn yr ardal, ac er bod iddo bwerau cymharol gyfyngedig mae'n gweithredu fel catalydd pwysig ar gyfer gwella safon bywyd trigolion yn lleol.

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu ardal o 3,517 hectar, o Bibwrlwyd i Lanmorlais, i'r Rhyd ac i Gloigyn gan gynnwys y pentrefi a'r pentrefannau Bancycapel, Croesyceiliog, Cwmffrwd, Glanmorlais, Idole, Llandyfaelog, Pentrepoeth ac Uplands Arms. Mae'r Cyngor yn gwasanaethu poblogaeth o tua 1,300.

Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnwys un ar ddeg o aelodau etholedig sy'n sefyll etholiad bob pedair blynedd. Mae'n cyflogi Clerc i'r Cyngor ar gytundeb rhan amser, sydd yn Swyddog Priodol yn ogystal â Swyddog Cyllidol Cyfrifol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r Cyngor yn cwrdd yn Neuadd Llandyfaelog ar Ddydd Iau cyntaf bob mis (ar wahân i fis Awst). Paratoir yr agenda a'r cofnodion yn ddwyieithog gan y Clerc, a thrafodaethau'r Cyngor yn ogystal yn ddwyieithog.

Mae'r Cyngor yn darparu ac yn cynnal arosfannau bysus, goleuadau cyhoeddus, seddau cyhoeddus, byrddau arddangos cyhoeddus, maes chwarae arfaethedig, ac yn gwasanaethu biniau ysbwriel. Mae hefyd yn darparu grantiau i sefydliadau gwirfoddol sydd er budd i'r ardal, ac yn rhan o ymgynghori helaeth ar gynllunio a rheolaeth ddatblygu, materion yn ymwneud â'r priffyrdd ac amrywiaeth eang o faterion gwasanaeth cyhoeddus. Mae hefyd yn gweithredu fel ymddiriedolwr gwarcheidiol i neuadd bentref Llandyfaelog.

Yn ôl tystiolaeth Arolwg Cymunedol a gynhaliwyd ym 1998, roedd bron 72% o drigolion yr ardal yn byw mewn tŷ lle bod o leiaf un person yn siarad Cymraeg. Dangosodd Cyfrifiad Cenedlaethol 1991 bod 68% o drigolion yr ardal yn siaradwyr Cymraeg.

Mae'r ardal yn cael ei wasanaethu gan ysgol gynradd ddwyieithog yn Idole ac Ysgol Gyfun Bro Myrddin a'u cymdeithasau rhieni/athrawon penodedig. Mae yna pedwar capel yn yr ardal lle cynhelir gwasanaethau yn Gymraeg, dwy eglwys lle cynhelir gwasanaethau dwyieithog a gwasanaeth Saesneg yn Eglwys Adfentyddion y Seithfed Dydd. Mae grwpiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys Sefydliad y Merched, Merched y Wawr, C.Ff.I, Cymdeithas y Pensiynwyr, Eisteddfod, Neuadd Llandyfaelog a Chymdeithas Amaethyddol/Garddwrol.

Mae'r Cyngor yn hyrwyddo a sbarduno datblygiadau cymdeithasol a gweithgareddau gan gynnwys rhaglen lawn o weithgareddau amrywiol ar gyfer y Milflwydd, ac yn ymdrechu'n barhaol, i ymateb i anghenion y gymuned mae'n ei gwasanaethu.

INTRODUCTION TO LLANDYFAELOG COMMUNITY COUNCIL

The Community Council is the important grass-roots of local government in the area and, although its powers are fairly limited, it can and does act as an important catalyst for improving the quality of life of the people who live within the area.

The Council serves an area of 3,517 hectares, from Pibwrlwyd to Glanmorlais, to the Rhydwl and to Cloigyn with village and hamlets including Bancycapel, Croesyceiliog, Cwmffrwd, Glanmorlais, Idole, Llandyfaelog, Pentrepoeth and Uplands Arms. It has a population of approximately 1,300.

The Community Council is made up of eleven elected members, who stand for office every four years. It employs a Clerk to the Council on a part-time basis, who is the Council's Proper Officer and Responsible Financial Officer under the Local Government Act 1972. It meets at the Hall in Llandyfaelog on the first Thursday of each month (except August). Agendas and minutes are produced by the Clerk and are bilingual, as are the discussions of Council.

The Council provides and maintains bus shelters, public lighting, public seating, notice boards, public footpaths, an imminent recreation area and services litter bins. It also provides grant aid at its discretion to voluntary organisations where there is benefit to the area, and is heavily consulted on planning and development control, highway related matters and a range of other public service issues. It acts as custodian trustee to the village hall at Llandyfaelog.

On the evidence of the Community Appraisal carried out by the Community Council in 1998, almost 72% of those who live in the area, are in households where there is at least one Welsh speaker. The National Census of 1991, showed that 68% of the residents of the area were Welsh speakers.

The area is served by a bilingual primary school at Idole and secondary school at Ysgol Gyfun Bro Myrddin, and their respective Parent/Teacher Associations. There are four chapels in the area where services are conducted in Welsh, two churches where services are bilingual and an English service at the Church of the 7th Day Adventists. Social, cultural and community groups feature prominently in the area. These include Women's Institute, Merched y Wawr, Y.F.C, Pensioners Association, Llandyfaelog Hall, Eisteddfod, and Agricultural/Horticultural Society.

The Council itself actively promotes and initiates community development, activities and involvement including a varied programme of events during the Millennium year, and attempts at all times to be responsive to the needs of the community it serves.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

1. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

1.1 Polisiâu a Mentrau Newydd

Wrth ddyfeisio polisiâu a mentrau newydd, fe fydd y Cyngor yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisiâu a mentrau newydd gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith.
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl ac yn symud yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw.
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â bwriadau a fydd yn effeithio ar y cynllun. Ni newidir y cynllun heb gytundeb y Bwrdd.
- sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud a llunio polisi yn ymwybodol o'r cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- sicrhau y bydd mesurau yn y cynllun yn cael eu gweithredu wrth weithredu polisiâu a mentrau newydd.

1.2 Cyflwyno Gwasanaethau

- Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod pob agwedd o'i wasanaeth i'r cyhoedd yn y gymuned ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg trwy'r dulliau canlynol:
 - mabwysiadu dulliau gweithredu fydd yn darparu gwasanaeth yn yr iaith a ddewisir gan y sawl sydd yn derbyn y gwasanaeth.
 - cyflogi cyfieithwyr yn ôl y galw.
- Bydd y mesurau a gynhwysir yn y cynllun yn berthnasol i'r holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i'r cyhoedd,

1.3 Safonau Ansawdd

- Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn Saesneg neu yn y Gymraeg yn gyfartal o ran safon uchel.
- Bydd ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn y ddwy iaith yn cael ei datgan mewn dogfennau allweddol.
- Fe fydd gweithredu'r polisi yn cael ei fonitro.

WELSH LANGUAGE SCHEME.

1. SERVICE PLANNING AND DELIVERY

1.1 New Policies and Initiatives

In devising new policies and initiatives the Council will:

- assess the linguistic effect of any new policies and initiatives and ensure that they are consistent with the Welsh Language Scheme.
- promote and facilitate the use of Welsh wherever possible and will move closer to implementing the principle of equality fully at every opportunity.
- consult with the Welsh Language Board in advance regarding proposals which will affect the scheme. The scheme will not be altered without the Board's agreement.
- ensure that those involved in formulating policy will be aware of the scheme, and of the Council's responsibilities under the Welsh Language Act 1993.
- ensure that the measures contained in the scheme are applied to new policies and initiatives when they are implemented.

1.2 Delivery of Services

- The council will aim to ensure that all aspects of its service to the public in Wales will be available through the medium of Welsh by:
 - adopting procedures which will enable the provision of services in the language chosen by the service users.
 - employing translators wherever necessary.
- The measures set out in the scheme will apply to all the services delivered by the Council to the public.

1.3 Standards of Quality

- Services provided in English or Welsh will be of an equally high standard.
- The Council will refer to the equality of the standard of service delivery in both languages in its key documents.
- The standards applied to the Welsh language services and their implementation will be monitored.

2. YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

2.1 Gohebu Ysgrifenedig

- Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Bydd gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn derbyn sylw yn ôl yr un graddfa amser.
- Os dderbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg fe atebir yn y Gymraeg.
- Bydd pob gohebiaeth yn dilyn sgwrs yn Gymraeg, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, yn Gymraeg, os nad yw'r aelod o'r cyhoedd yn dynodi fel arall.
- Bydd gohebiaeth yn dilyn cyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith person yn Gymraeg, er ei bod yn bosibl nad y Gymraeg oedd iaith y cyfarfod.
- Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei dewis/ddewis iaith lle bo hynny'n hysbys. Os nad yw'n hysbys, bydd gohebiaeth ddechreuol y Cyngor yn ddwyieithog.
- Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am drefnu cyfieithu gohebiaeth.

2.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

- Bydd y Cyngor yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Swydd rhan amser yw swydd Clerc y Cyngor, ac mae'r gwaith yn cael ei weinyddu o gartref y Clerc.

2.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor

- Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu'n hysbysebu'r cyfarfod
- Bydd pob hysbysrwydd am gyfarfod cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog.
- Bydd y Cyngor yn darparu offer cyfieithu ar gyfer y di-Gymraeg ymhob cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor.
- Bydd unrhyw wybodaeth ysgrifenedig sy'n cael ei ddefnyddio mewn cyfarfod o'r fath megis taflenni neu dryloywon yn ddwyieithog.

2. DEALING WITH WELSH SPEAKING PUBLIC

2.1 Written Communication

- The Council will welcome correspondence in either English or Welsh.
- Correspondence through the medium of either English or Welsh will be dealt with within the same timescale.
- Every letter received in Welsh will be answered in Welsh.
- All correspondence following a telephone or face-to-face conversation in Welsh will be in Welsh unless the member of the public has indicated otherwise.
- Correspondence ensuing from a meeting where it had been established that the person's preferred language is Welsh, although the meeting may not have been held through the medium of Welsh, shall be in Welsh.
- All correspondence with a member of the public will be initiated in his / her preferred language if known. If it is not known initial correspondence from the Council will be bilingual.
- All circular or standard letters to the public will be bilingual.
- The Clerk will be responsible for organising the translation of correspondence

2.2 Telephone Calls

- The Council will welcome telephone calls in English and Welsh. The Clerk to the Council is a part-time appointment, and the workload is administered at the Clerk's home.

2.3 Public Meetings organised by or on behalf of the Council

- Contributions will be welcome in English or Welsh at public meetings. This will be made clear in the literature convening or publicising the meeting.
- All publicity for such public meetings will be bilingual.
- Translation facilities will be provided for the non-Welsh speakers at all public meetings organised by or on behalf of the Council.
- All written information used at such a meeting, such as leaflets or o.h.p. transparencies will be bilingual.

2.4 Cyfarfodydd eraill gyda'r Cyhoedd

- Bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud hynny i drafod materion yn y Gymraeg.

2.5 Ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd

- Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn cysylltu â'r cyhoedd drwy gyfrifiaduron, ond petai hynny yn digwydd yn y dyfodol, cydymffurfir â'r mesurau a osodwyd o dan Gohebu Ysgrifenedig.

3. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

3.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

- Enw'r Cyngor yw Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council.
- Bydd y Cyngor yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog.
- Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor Cymuned yn ymddangos yn ddwyieithog ar bapur pennawd, papur ffacs a slipiau cyfarch.

3.2 Arwyddion

- Bydd pob arwydd gwybodaeth a godir am y tro cyntaf neu yn lle hen arwydd ar eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog, ac felly hefyd unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Fe fydd y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr a'r fersiwn Cymraeg ar y chwith. Lle bo hyn yn anymarferol bydd y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf. Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn gyfartal yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.
- Pan yr ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn ag enwau strydoedd, datblygiadau ac ystadau newydd bydd y Cyngor yn cefnogi defnyddio enwau dwyieithog.

2.4 Other Meetings with the Public

- The Council will welcome meetings with the public in either Welsh or English and shall ensure that arrangements are made for any member of the public who wishes to discuss a matter in Welsh to be able to do so.

2.5 Other Dealings with the Public

- The Council does not at present have contact with the public through the computerised media, but should this be the case in the future then that contact will comply with measures set out under Written Communication.

3. THE COUNCIL'S PUBLIC FACE

3.1 Corporate Identity

- The Council's name is Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council.
- The Council will adopt a fully bilingual corporate identity.
- The Council's name and address will appear in both languages on letter headings, fax paper and complement slips.

3.2 Signs

- All new information signs or those replacing previous signs on Council property will be bilingual, as will any other public information signs for which the council is responsible. The two languages will appear side by side, with the Welsh version appearing to the left. Where it is not practical for the two languages to appear side by side, the Welsh version will appear first. The size, quality, legibility and prominence of text will be equal in Welsh and English
- When the Council is consulted about highway and public information signs it will support the principle that the signs be fully bilingual.

3.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd

- Bydd pob deunydd a anelir at y cyhoedd yng Nghymru, megis dogfennau, deunydd esboniadol neu ffurflenni grant, yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen. Argraffir y ddau fersiwn ochr yn ochr lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso croes gyfeirio.
- Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hawdd i'w cael.
- Bydd pob Agenda a Chofnodion cyfarfodydd o'r Cyngor yn cael eu paratoi'n ddwyieithog.
- Bydd pob datganiad i'r wasg yn ddwyieithog ac yn cynnwys enw cyswllt ar gyfer cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd hysbysebion a hysbysiadau a luniwyd gan y Cyngor ac a osodwyd yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu mewn unrhyw gyfrwng arall, yn ddwyieithog
- Gweithredir hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog mewn modd sydd yn trin y ddwy iaith ar sail cydraddoldeb.
- Bydd Datganiadau Derbyniad Swydd yn ddwyieithog.

4. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

4.1 Staffio

- Bydd hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg/dwyieithog ac yn y Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- Ystyrir gwybodaeth rugl o'r Gymraeg yn hanfodol i swydd Clerc y Cyngor, eithr onid ymgeisia unrhyw siaradwr Cymraeg sydd â chymwysterau digonol am y swydd, caiff y swydd ei hail-hysbysebu gan gynnwys datganiad y bydd yn ofynnol i unrhyw un a benodir ddysgu'r Gymraeg i'r safon angenrheidiol o fewn cyfnod penodedig gan y Cyngor.

4.2 Trefniadau Gweinyddol

- Mae gan y cynllun hwn lawn gefnogaeth Cyngor Cymunedol Llandyfaelog
- Fe fydd gan y Clerc a'r Cyngor y cyfrifoldeb i weithredu'r cynllun o fewn y Cyngor, a fydd yn sicrhau bod canllawiau a chyfarwyddiadau ar gael i bawb sydd yn ymwneud â gweithredu'r cynllun.
- Os neu pryd bydd y Cyngor yn prynu meddalwedd cyfrifiadurol newydd, bydd yn sicrhau fod y meddalwedd yn ei alluogi i gydymffurfio â'r ymrwymïadau yn y Cynllun hwn.

3.3 Publishing and Printing Material

- All publications aimed at the public in Wales, such as documents, explanatory material or grant forms will be bilingual with both language versions forming one document. The versions will be printed side by side where possible to facilitate easy cross-reference.
- If Welsh and English versions are published separately they will appear simultaneously, be distributed together and be equally accessible.
- All Agendas and Minutes of meetings will be produced bilingually
- All press releases will be bilingual and will include a contact name for Welsh language interviews.
- All publicity material initiated by the Community Council in the press, on informationboards or in any other medium will appear bilingually.
- Advertising and publicity activities will be conducted bilingually in a way which treats both languages on a basis of equality.
- Declarations of Acceptance of Office will be produced bilingually.

4. IMPLEMENTING AND MONITORING THE SCHEME

4.1 Staffing

- Advertisements for jobs will appear bilingually in English/bilingual publications and in Welsh only in Welsh language publications
- A fluent knowledge of Welsh is considered essential for the post of Clerk to the Council but if no sufficiently qualified Welsh speaker applies for the post, the vacancy will be readvertised containing a statement that any appointee will be required to learn Welsh to the required level within an agreed period specified by the Council.

4.2 Administrative Arrangements

- This scheme has the full support of Llandyfaelog Community Council.
- The responsibility for implementing the Scheme within the Council will rest with the Clerk and Council who will ensure that guidelines and instructions are available to all who are involved in the implementation of the scheme.
- If or when the Council purchases new computer software it will ensure that the software will enable it to comply with the commitments in this Scheme.

4.3 Swyddogaethau Statudol

- Pan bydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau ar gyfer cyfraniadau ariannol tuag at weithgareddau lleol, bydd yn gwahodd ymgeiswyr i ddisgrifio sut maent yn bwriadu adlewyrchu natur dwyieithog y gymuned yn y gweithgareddau y gwneir cais ariannol amdano.

4.4 Monitro

- Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am fonitro'r cynllun.
- Bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad byr ar weithredu'r Cynllun, bydd yn cael ei ddanfôn i Fwrdd yr Iaith, a'r wasg leol, yn cael ei osod ar fyrddau arddangos lleol, ac yn cael ei gyhoeddi yn y papur bro misol. Fe fydd yr adroddiad yn gwahodd trigolion ardal Cyngor Cymuned Llandyfaelog i gynnig eu barn ar y gwasanaeth a sut ellir ei wella.
- Fe fydd y broses o fonitro yn cynnwys y canlynol:
 - ymdrin â'r cyhoedd sydd yn siarad Cymraeg .
 - amser yr ymateb i ohebiaeth Gymraeg .
 - trefniadau ar gyfer cyfathrebu dros y ffôn.
 - y defnydd a wneir o gyfieithu.
 - wyneb cyhoeddus y Cyngor.
 - arwyddion, ffurflenni, hysbysiadau a chyhoeddiadau dwyieithog
 - delwedd gorfforaethol y Cyngor.
 - cynllunio i'r dyfodol.
 - sicrhau bod polisiau newydd neu gyhoeddiadau yn cydfynd â chyflenwi gwasanaethau dwyieithog ar sail cydraddoldeb.
 - cwynion.
 - nifer a natur y cwynion a derbynnir mewn perthynas â gwasanaeth y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg ac awgrymiadau ar gyfer ei wella.
 - Trefnu a chyflwyno gwasanaethau
 - Staffio

4.3 Statutory Functions

- When the Council receives applications for financial contributions towards local activities it will invite applicants to describe how they intend to reflect the bilingual nature of the community in the activities for which they require financial support.

4.4 Monitoring

- Responsibility for monitoring the Scheme will rest with the Clerk.
- The Council will prepare a brief annual report on implementing the Scheme that will be sent to the Welsh Language Board and to local media, and displayed on Council information boards and appear in the local monthly community newspaper. The report will invite residents of the Community Council area to offer their views on the service and how it could be improved.
- The following will be involved in the monitoring process:
 - dealing with the Welsh speaking public
 - time taken to respond to correspondence in Welsh
 - the implementation of the measures on telephone communication
 - the use of translation
 - the Council's public face
 - bilingual signs, forms, notices and publications
 - the council's corporate image
 - forward planning
 - ensuring that new policies will be in keeping with the delivery of bilingual services on a basis of equality
 - grievances
 - the number and nature of complaints received relating to the Council's service in the Welsh language and suggestions for improvements.
 - Organising and delivering services
 - Staffing

-Asiantau a Chontractwyr

-Amserlen

- Bydd y Cyngor yn croesawu awgrymiadau ar sut i wella unrhyw agwedd o'r cynllun.

4.5 Cyhoeddusrwydd

- Bydd y Cyngor yn cyhoeddi gweithredu'r cynllun drwy'r wasg leol ac ar ei fyrddau hysbysebu.

4.6 Amserlen

- Bydd y Cyngor yn dechrau gweithredu'r cynllun o ddyddiad ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda'r bwriad iddo fod yn gweithredu i raddau helaeth o fewn deuddeg mis wedi hynny.

4.7 Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Cyngor gan bartïon eraill

Os yw neu fydd y Cyngor yn darparu elfen o'i wasanaethau i'r cyhoedd trwy gytundeb/trefniant neu gontract â thrydydd parti a fyddai'n gweithredu ar ei ran, yna bydd angen iddynt gydymffurfio gyda agweddau perthnasol o'r cynllun hwn.

4.8 Cysylltiad o fewn y Cyngor

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau yn gysylltiedig a'r cynllun at:

Mr Wyn Davies
Clerc Cyngor Cymunedol Llandyfaelog
Hazelmere
Lôn yr Ysgol
Caerfyrddin
SA32 8DG

-Agents and contractors

-Timetable

- The Council will welcome suggestions for improvements to any aspect of the scheme.

4.5 Publicity

- The Council will announce the implementation of the Scheme in the local press and on its notice boards.

4.6 Timetable

- The Council will begin implementing the scheme from the date of its approval by the Welsh Language Board with a view to its being largely operational within twelve months thereafter.

4.7 Services delivered on behalf of the Council by other parties

- If or when the Council uses third parties to provide public services through contract/arrangement or agreement on its behalf, they will need to comply with relevant aspects of this scheme.

4.8 Contact with the Council

Any comments, complaints or suggestions regarding the scheme should be addressed to:

Mr Wyn Davies
Llandyfaelog Community Council Clerk,
Hazelmere,
Lôn yr Ysgol,
Carmarthen
SA32 8DG